# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

29/02/24

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Safonau a Moeseg yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynadledda, Dydd Mercher, 6 Mawrth 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Materion Personol**

3. **Cyfle blynyddol i annerch y pwyllgor gan Arweinydd Grwp am hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau Cyngor Sir Ceredigion**

4. **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 04 Rhagfyr 2023 (Tudalennau 3 - 8)**

5. **Cofnod o Gamau Gweithredu (Tudalennau 9 - 16)**

6. **Diweddariad Cod Ymddygiad Swyddog Monitro- Chwarter 3 a 4 2023-2024 (Tudalennau 17 - 20)**

7. **Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru (Tudalennau 21 - 22)**

8. **Canfyddiadau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Tudalennau 23 - 28)**

9. **Cynlluniau hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned (Tudalennau 29 - 32)**

10. **Recriwtio Cynghorwr Tref a Chymuned ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 33 - 34)**

11. **Blaenraglen Waith (Tudalennau 35 - 40)**

12. **Unrhyw Fusnes Arall**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

 Eitem Agenda 4

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Llun, 04 Rhagfyr 2023**

YN BRESENNOL: Mr John Weston (Cadeirydd) Mr Alan Davies a Ms.Gail Storr

Y Cynghorydd Caryl Roberts, Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans a'r Cynghorydd Jan Culley (Aelodau Etholedig)

Aelodau Etholedig eraill yn bresennol: Y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies a Meirion Davies

HEFYD YN BRESENNOL:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau)

(10:00am-11:15pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Miss Caryl Davies a Ms Carol Edwards am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd, Mr John Weston.

Roedd y Cynghorydd Delyth James wedi dod i'r cyfarfod. Fodd bynnag, oherwydd y rheolau yn ymwneud â'r cworwm, cytunwyd y byddai'n gadael y Pwyllgor er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng nifer yr Aelodau Annibynnol a'r Cynghorwyr.

**2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

**3 Ystyried ceisiadau am ollyngiadau oddi wrth y Cynghorwyr canlynol:**
**(i) Y Cynghorydd Bryan Davies – Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais dyddiedig 17 Hydref 2023 oddi wrth y Cynghorydd Bryan Davies, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio ynghylch Premiwm Treth y Cyngor ar Dai Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion. Gyda'i wraig a'i frawd, roedd yn gyd-berchen ar dŷ. Roedd y tŷ yn cael ei osod ar rent i deulu yn yr hirdymor.

Roedd y Cynghorydd Davies yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'i gais ac atebodd gwestiynau ynghylch ei gais.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Davies adael y Siambr er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal, (rheoliad 2 (d) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

**(ii) Y Cynghorydd Ifan Davies, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais dyddiedig 21 Tachwedd 2023 oddi wrth y Cynghorydd Ifan Davies, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio ynghylch treth y cyngor ar ail gartrefi. Roedd yn berchen ar nifer o eiddo yng Ngheredigion.

Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd digon o wybodaeth yn y cais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad yn unig (am nad oedd digon o wybodaeth yn ei ffurflen gais ynglŷn â'r eiddo yr oedd yn berchen arno), ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (rheoliad (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

**(iii) Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais dyddiedig 03 Tachwedd 2023 oddi wrth y Cynghorydd Catrin M S Davies, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio ynghylch codi trethi ar ail gartrefi.
Roedd yn berchen ar eiddo gwag ond nid oedd yn berchen ar gartref gwyliau. Ni fyddai codi trethi ar gartrefi gwyliau yn effeithio arni.

Roedd y Cynghorydd Davies yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'i chais ac atebodd gwestiynau ynghylch ei chais.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Davies adael y cyfarfod fideo er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei chais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal, (rheoliad 2 (d) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

**(iv)Y Cynghorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais dyddiedig 27 Tachwedd 2023 oddi wrth y Cynghorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio ynghylch Premiwm Treth y Cyngor ar Dai Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion. Roedd yn berchen ar eiddo (ar wahân i'w gartref) a oedd yn cael ei osod ar rent.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans siarad a phleidleisio ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal, bod y buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran sylweddol o'r cyhoedd a bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (rheoliadau 2 (d) (e) ac (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

**(v) Y Cynghorydd Marc Davies, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais dyddiedig 21 Tachwedd 2023 oddi wrth y Cynghorydd Marc Davies, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio ynghylch treth y Cyngor ar ail gartrefi. Roedd ganddo eiddo arall yr oedd yn ei osod allan ar gytundebau hirdymor.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal, bod y buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran sylweddol o'r cyhoedd a bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (rheoliadau 2 (d) (e) ac (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

**(vi) Y Cynghorydd Meirion Davies, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais dyddiedig 27 Tachwedd 2023 oddi wrth y Cynghorydd Meirion Davies, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio ynghylch Premiwm Treth y Cyngor. Roedd yn berchen ar lety gwyliau ar ei fferm.

Roedd y Cynghorydd Davies yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'i gais ac atebodd gwestiynau ynghylch ei gais.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Davies adael y Siambr er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal a bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (rheoliadau 2 (d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

**(vii) Y Cynghorydd Wyn Evans, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais dyddiedig 27 Tachwedd 2023 oddi wrth y Cynghorydd Wyn Evans, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio

ynghylch Premiwm Treth y Cyngor ar Dai Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion. Roedd yn berchen ar eiddo (ar wahân i'w gartref) a oedd yn cael ei osod ar rent.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans siarad a phleidleisio ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal, a bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (rheoliadau 2 (d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

4 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2023**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2023 yn gywir.

**Materion yn codi**

Cofnod 3 – Dywedodd y Swyddog Monitro fod Ms Gail Storr wedi cytuno i fod yn Aelod Annibynnol o is-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru. Byddai'r trefniadau hyn yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2023. Nodwyd bod Carol Edwards eisoes wedi cytuno i fod yn Aelod Annibynnol ar yr is-bwyllgor ac mai'r Cynghorydd Gwyn Wigley Evans fyddai cynrychiolydd y Cynghorwyr ar yr is-bwyllgor.

Cofnod 7 – Dywedwyd bod Ms Llinos James wedi'i phenodi fel aelod annibynnol newydd ar 16 Tachwedd 2023 ac y byddai'n olynu Mr John Weston ar 22 Chwefror 2024. Byddai'r penodiad hwn yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2023.

Cofnod 13 – Roedd Hysbysiadau o Benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'u dosbarthu drwy e-bost cyfrinachol. Dywedodd y Swyddog Monitro iddi fod yng nghyfarfod o Grŵp y Swyddogion Monitro ar 01 Rhagfyr 2023 ac adroddwyd mai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fyddai'n dosbarthu'r canllawiau o hyn ymlaen ynghylch y llythyron o benderfyniadau ynglŷn â gwrandawiadau pwyllgorau safonau.

Cofnod 14- Yn ystod cyfarfod o Grŵp y Swyddogion Monitro, cytunwyd nad oedd y wybodaeth a ddarperid ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch penderfyniadau – yr hyn a oedd wedi disodli'r Coflyfr - yn hawdd mynd ato. Roedd sylw yn cael ei roi i'r mater hwn ar hyn o bryd a byddai cylchlythyr hefyd yn cael ei ddosbarthu yn y dyfodol.

Cofnod 15- Roedd y Swyddog Monitro wedi rhoi gwybod i'r grŵp fod Cadeirydd Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion wedi gofyn am gael rhoi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar agenda nesaf Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau fel y gellid ei ystyried. Byddai'r Cadeirydd yn rhoi adborth o'r Fforwm yn y cyfarfod nesaf (29/1/24).

Cofnod 16- Dywedodd y Swyddog Monitro iddi roi gwybod i Grŵp y Swyddogion Monitro fod Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion wedi cytuno y byddai trothwy rhodd/lletygarwch ar gyfer Aelodau Cyngor Sir Ceredigion yn aros ar £21. Nodwyd mai adolygiad Penn oedd wedi argymell y £25. Serch hynny, argymhelliad yn unig oedd hwn a byddai angen deddfwriaeth i sicrhau cysondeb.

**5 Adborth o'r gweithdy ynghylch asesiad cydymffurfio arweinwyr y grwpiau gwleidyddol**

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad yn amodol ar y canlynol:-
(i) ers cyhoeddi'r agenda, bod dyddiadau'r gweithdai wedi'u pennu ac y byddent yn cael eu cynnal ar 24 Ebrill 2024 a 20 Mai 2024;
(ii) y byddai Arweinwyr y Grwpiau yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod a fyddai'n cael ei gynnal ar 06 Mawrth 2024; ac
(iii) roedd angen hysbysu Arweinwyr y Grwpiau mai dim ond dau o'r Aelodau oedd wedi gwneud yr hyfforddiant ar-lein ynghylch y Cyfryngau Cymdeithasol ac y dylai pob Cynghorydd gwblhau'r hyfforddiant hwn cyn gynted ag y bo modd.

**6 Adolygu'r ffurflen gais am ollyngiad**

CYTUNWYD i gymeradwyo'r ffurflen gais ddiwygiedig am ollyngiad yn amodol ar hefyd gynnwys enw'r Ward yr oedd y Cynghorwyr Sir yn eu cynrychioli o dan 'Eich Manylion'.

**7 Penodi Is-gadeirydd**

CYTUNWYD y byddai Ms Gail Storr yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd o 22 Chwefror 2024 am gyfnod o bedair blynedd.
Roedd angen cytuno i'r penodiad yn y cyfarfod hwn gan na fyddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal tan fis Mawrth 2024. Byddai'r Cyngor yn cael ei hysbysu ar 14/12/23.

Diolchodd yr holl Aelodau i Mr John Weston am ei waith ar y Pwyllgor dros y chwe blynedd ddiwethaf gan ddymuno'n dda iddo at y dyfodol.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion 2022-2023*

Diben y Cofnod hwn yw monitro'r camau gweithredu y mae aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi cytuno arnynt yn eu cyfarfodydd e.e. lle bo aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi gofyn am gyflwyno adroddiad ger eu bron yn y dyfodol, neu wedi gofyn am wybodaeth ar gyfer un o gyfarfodydd y dyfodol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am y Cofnod o Gamau Gweithredu, cysylltwch â'r Swyddog Safonau.

Diweddarwyd: 18 Hydref 2023

*Blwyddyn Fwrdeistrefol

Caiff y camau gweithredu sydd wedi'u nodi mewn gwyrdd ac sydd wedi'u cwblhau ('Do') eu tynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu dilynol.

Acronymau:

AW – Archwilio Cymru
CE: Prif Weithredwr
CLO – Swyddog Arweiniol Corfforaethol
FWP – Blaenraglen Waith
SO – Swyddog Safonau
MO – Swyddog Monitro

CM – Rheolwr Corfforaethol
ESC – Pwyllgor Moeseg a Safonau
OVW – Un Llais Cymru
L&G – Llywodraethol a Chyfreithiol
N/A – Amherthnasol
TBC – I'w Gadarnhau

| Rhif | Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau | Eitem | Nodwyd / Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu | Diweddariad ar y Datblygiadau | I'w adrodd nesaf | Wedi'i gwblhau? Do/Nadd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | 25/1/23 | **Cysoni'r trothwyon ar gyfer rhoddion / lletygarwch ar draws pob Awdurdod yng Nghymru** | CYTUNWYD: Bod amrywiaeth leol yn dderbyniol, er y cytunir mewn egwyddor â'r syniad o gysondeb. | Dylai'r trothwy ar gyfer rhoddion i Aelodau'r Cyngor a Swyddogion fod yn cyd-fynd â'i gilydd. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y cynnig hwn ymhellach a bydd yn cael ei roi yn y Flaenraglen Waith i'w ystyried. Felly hefyd, o bosib, gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ôl yr angen. Dim ond y Cyngor all wneud | MO / NJ | Danfonwyd ebost at MO /NJ 17/2/23<br><br>Cyfarfod 3/4/23:<br><br>Cytunwyd y byddai'n cael ei adolygu eto mewn chwe mis gan ei fod bellach hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad yn adroddiad Penn. Byddai hwn yn cael ei osod ar y Flaenraglen Waith.<br><br>15/11/23:<br>CYTUNWYD I (i) | 15/11/23<br>10/1/24 | |

| Rhif | Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau | Eitem | Nodwyd / Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu | Diweddariad ar y Datblygiadau | I'w adrodd nesaf | Wedi'i gwblhau? Do/Nadd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | newidiadau i'r Côd. | | nodi'r datblygiadau ers ystyried y mater hwn yn y cyfarfod ar 23/1/23; a<br><br>(ii) bod y trothwy rhodd/lletygarwch ar gyfer Aelodau Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn £2 | | |
| 2 | 3/4/23 | **Penodi Is-gadeirydd** | | Gohiro i'r cyfarfod nesaf | | Cadarnhaodd JW y byddai'n hapus i aros fel Is-gadeirydd hyd nes y daw ei gyfnod yn y swydd i ben | 5/6/23 Adroddiad i'r Pwyllgor 4/12/23: CYTUNWYD i benodi Ms Gail Storr yn Is-gadeirydd o 22 Chwefror 2024 am gyfnod o bedair blynedd. Hysbyswyd y Cyngor ar 14/12/23. | Do |

| Rhif | Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau | Eitem | Nodwyd / Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu | Diweddariad ar y Datblygiadau | I'w adrodd nesaf | Wedi'i gwblhau? Do/Nadd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | 3/4/23<br><br>5/6/23 | **Hyfforddiant gloywi Cod Ymddygiad ar gyfer y Dref/ Cynghorau Cymuned** | | I'w gynnig i Gynghorau Tref / Cymuned yn 2024 | DJ / EP | 15/11/23: CYTUNWYD gan fod hyfforddiant ar gael ar God Ymddygiad Un Llais Cymru, y dylai Cynghorau Tref a Chymuned gysylltu â nhw i gael hyfforddiant. | | Do |
| 4 | 5/6/23 | **Cynllunio Olyniaeth Aelodau Annibynnol** | | Adroddiad i'r Cyngor Sefydlu rhestr fer / panel cyfweld | LME | Adroddiad a gymerwyd i'r Cyngor<br><br>Cynhaliwyd panel rhestr fer ar 9/10/23<br><br>Cynhelir cyfweliadau ar 16/11/23<br><br>Llinos Jones wedi'i phenodi o 22/2/24 | Diweddariad ar 15/11/23` | Do |

| Rhif | Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau | Eitem | Nodwyd / Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu | Diweddariad ar y Datblygiadau | I'w adrodd nesaf | Wedi'i gwblhau? Do/Nadd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| 5 | 15/11/23 | **Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 22/23, Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus 22/23 a Hysbysiadau Penderfyniad Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus** | CYTUNWYD i (i) Nodi cynnwys Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 22/23 ac Adroddiad Blynyddol 22/23 yr Ombwdsmon (ii) bod Aelodau'n derbyn gwybodaeth ynghylch Hysbysiadau o Benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, | E-bost cyfrinachol | MO/DJ | Dosbarthwyd DJ trwy e-bost cyfrinachol | | Do |

| Rhif | Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau | Eitem | Nodwyd / Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu | Diweddariad ar y Datblygiadau | I'w adrodd nesaf | Wedi'i gwblhau? Do/Nadd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ac (iii) y byddent yn cael eu cylchredeg drwy e-bost cyfrinachol. | | | | | |
| 6 | **15/11/23** | **Cynlluniau hyfforddi Cyngor Tref a Chymuned** | CYTUNWYD (i) bod e-bost yn cael ei ddanfon at yr holl glercod i'w hatgoffa bod yn rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi, ac i roi cais bod y cynlluniau'n cael eu danfon i Gyngor Sir Ceredigion; (ii) bod cynllun monitro'r cynlluniau hyfforddi hyn | E-bost at gynghorau cymuned/tref | LE | Anfonnwyd e-bost | 6/3/23 | |

| Rhif | Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau | Eitem | Nodwyd / Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu | Diweddariad ar y Datblygiadau | I’w adrodd nesaf | Wedi’i gwblhau’ Do/Nadd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn eitem yn y Flaenraglen Waith i'w ystyried yn flynyddol; a (iii) cysylltu â'r Cynghorydd Sir priodol os nad oedd y Cyngor Cymuned yn ei Ward wedi cyflwyno'r cynllun i'r Cyngor; er mwyn nodi ei bod yn ofynnol i'r cynllun fod ar eu gwefan yn unol â’r ddeddfwriaeth. | | | | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **TEITL:** | **Diweddariad Cod Ymddygiad Swyddog Monitro- Chwarter 3 a 4 2023-2024** |
| **DYDDIAD:** | **6 Mawrth 2024** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **PWRPAS:** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

Bydd y Pwyllgor yn cofio bod y Swyddog Monitro wedi adrodd ar Chwarter 1 a 2 23/24 ar 15/11/23.

Pwyllgor:

- y gofynnwyd iddynt gael eu hysbysu mewn adroddiadau yn y dyfodol am unrhyw dueddiadau a oedd wedi cynyddu/lleihau
- nodi'r cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf o dueddiadau'n ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a cham-drin ar-lein.

**Y sefyllfa bresennol**

**Dangosir Diweddariad y Swyddog Monitro 3 a 4 hyd yma (Hydref 2023-Rhagfyr 2023/Ionawr 2024)** ar weithgaredd Cod Ymddygiad a thueddiadau ac ystadegau diweddar isod.

**Cyngor Sir**

- Lleihad-diffyg parch ac ystyriaeth i swyddogion
- Cynnydd-diffyg parch ac ystyriaeth i gynghorwyr eraill
- Lleihad: Diffyg parch ac ystyriaeth i swyddogion mewn cyfarfodydd cyhoeddus

  Ystadegau:

- Ataliad dros dro APW x1:6m-dod i ben 9/1/24.

  Ymddiswyddodd Cynghorydd. Aros am adroddiad terfynol PSOW.

- Cynghorwyr sy'n destun ymchwiliad gorfodol:x1
  - Hunan gyfeirio at MO: 0
  - Hunan gyfeirio at PSOW:0
  - Ymddiheuriad cynghorydd mewn cyfarfod cyhoeddus: x1
  - Hysbysiadau Penderfyniad PSOW Chwarter 4 hyd yma:x1

**Cynghorau Tref a Chymuned**

- Cynnydd mewn cwynion yn ymwneud ag ymddygiad- diffyg parch ac ystyriaeth
- Cynnydd- diffyg parch ac ystyriaeth tuag at aelodau'r cyhoedd mewn cyfarfod cyhoeddus ee sylwadau sarhaus/llidiol, gan fethu â thorri'r Cod oherwydd gwell amddiffyniad a roddir gan ryddid mynegiant yr aelod gan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

  Ystadegau:

- Cynghorydd yn methu â hunan-adrodd euogfarn i PSOW: x1
- Atgyfeirio PSOW at y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar gyfer gwrandawiad penderfynu cychwynnol:x1
- Hysbysiadau Penderfyniad PSOW Chwarter 4 hyd yma: x4 wedi'u hadrodd

**Argymhelliad/Argymhellion:**

**Nodi cynnwys yr adroddiad**

**RHESWM DROS ARGYMHELLION/ARGYMHELLIAD:**

**Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am weithgaredd Cod Ymddygiad a thueddiadau diweddar**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Monitro |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 15/1/24 |

3

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **6 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Diweddaru'r Pwyllgor ar faterion Panel Dyfarnu Cymru** |

**Cefndir**

Mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar unrhyw honiadau o fynd yn groes i God Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig o Gynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistrefol a Chynghorau Cymuned yng Nghymru gan gynnwys Awdurdodau Tân a Pharciau Cenedlaethol.

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 15/11/23, mae Panel Dyfarnu Cymru wedi cyhoeddi'r eitemau canlynol:

**Cyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:** Dim

**Apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau**: 1
Y Cynghorydd David Metcalfe
Awdurdod perthnasol: Cyngor Cymuned Cefn
(prif awdurdod – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Hysbysiad o Benderfyniad (Saesneg yn unig): apw-appeal-decision-david-metcalfe.pdf (gov.wales)
Casgliad: "Ni fydd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru yn galw tribiwnlys apêl. Caiff y Swyddog Monitro ei hysbysu fel y gall y cyfnod o atal y Cynghorydd dros dro ddechrau."

Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 16/1/24:
Gwrandawiad Safonau i ymddygiad y Cynghorydd Cymuned David Metcalfe o Gyngor Cymuned Cefn (wrecsam.gov.uk)

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam.**
Nac oes
**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Cydweithio:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Cynnwys:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Atal:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Integreiddio:** | **Ddim yn berthnasol** |

**Argymhelliad:**
Nodi cynnwys yr adroddiad.

**Enw Cyswllt:** Elin Prysor

**Swydd:** Swyddog Monitro

**Dyddiad yr adroddiad:** 22/2/24

Eitem Agenda 8

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**Dyddiad y cyfarfod:** **6 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Canfyddiadau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Diben yr adroddiad:** **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Cefndir**

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau, o dan ddarpariaethau Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno. Mae'r canlynol yn benderfyniadau a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Sir Powys/Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Dyddiad yr Adroddiad

20/11/2023
Pwnc

COD - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
Canlyniad

COD
Rhif Cyfeirnod yr Achos

202201455/20220249
Math o Adroddiad

COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau
Corff Perthnasol

Cyngor Sir Powys/Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Gweld Adroddiad

**test - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Cymuned Mwmbwls**

Dyddiad yr Adroddiad

10/10/2023
Pwnc

COD - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
Canlyniad

COD
Rhif Cyfeirnod yr Achos
202203558
Math o Adroddiad
COD - Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru
Corff Perthnasol
Cyngor Cymuned Mwmbwls
Gweld Adroddiad

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Tref Bwcle**

Dyddiad yr Adroddiad
29/09/2023
Pwnc
COD - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
Canlyniad
COD
Rhif Cyfeirnod yr Achos
202105656
Math o Adroddiad
COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau
Corff Perthnasol
Cyngor Tref Bwcle
Gweld Adroddiad

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Dyddiad yr Adroddiad
18/12/2023
Pwnc
COD - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
Canlyniad
COD
Rhif Cyfeirnod yr Achos
202200187
Math o Adroddiad
COD - Dim Angen Gweithredu
Corff Perthnasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gweld Adroddiad

### Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Sir Fynwy

Dyddiad yr Adroddiad

20/10/2023

Pwnc

COD - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch

Canlyniad

COD

Rhif Cyfeirnod yr Achos

202201568

Math o Adroddiad

COD - Dim Angen Gweithredu

Corff Perthnasol

Cyngor Sir Fynwy

Gweld Adroddiad

### Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Dyddiad yr Adroddiad

28/09/2023

Pwnc

COD - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch

Canlyniad

COD

Rhif Cyfeirnod yr Achos

202204477

Math o Adroddiad

COD - Dim Angen Gweithredu

Corff Perthnasol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Gweld Adroddiad

### Datgelu a Chofrestr Buddiannau: Cyngor Tref Ffestiniog

Dyddiad yr Adroddiad

13/09/2023

Pwnc

COD - Datgelu a Chofrestru Buddiannau

Canlyniad

COD

Rhif Cyfeirnod yr Achos

202201791

Math o Adroddiad

COD - Dim Angen Gweithredu

Corff Perthnasol

Cyngor Tref Ffestiniog

Gweld Adroddiad

**Datgelu a Chofrestr Buddiannau: Cyngor Tref Ffestiniog**

Dyddiad yr Adroddiad

13/09/2023

Pwnc

COD - Datgelu a Chofrestru Buddiannau

Canlyniad

COD

Rhif Cyfeirnod yr Achos

202201793

Math o Adroddiad

COD - Dim Angen Gweithredu

Corff Perthnasol

Cyngor Tref Ffestiniog

Gweld Adroddiad

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch:Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Dyddiad yr Adroddiad

24/08/2023

Pwnc

COD - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch

Canlyniad

COD

Rhif Cyfeirnod yr Achos

202204616

Math o Adroddiad

COD - Dim Angen Gweithredu

Corff Perthnasol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Gweld Adroddiad

**Datgelu a chofrestru buddiannau: Cyngor Cymuned Llanhiledd ac Abertyleri**

Dyddiad yr Adroddiad

16/08/2023

Pwnc

COD - Datgelu a Chofrestru Buddiannau

Canlyniad

COD

Rhif Cyfeirnod yr Achos

202005463

Math o Adroddiad

COD - Dim Angen Gweithredu

Corff Perthnasol

Cyngor Cymuned Llanhiledd ac Abertyleri

Gweld Adroddiad

### Datgelu a chofrestru buddiannau: Cyngor Cymuned Llanhiledd ac Abertyleri

Dyddiad yr Adroddiad

16/08/2023

Pwnc

COD - Datgelu a Chofrestru Buddiannau

Canlyniad

COD

Rhif Cyfeirnod yr Achos

202102478

Math o Adroddiad

COD - Dim Angen Gweithredu

Corff Perthnasol

Cyngor Cymuned Llanhiledd ac Abertyleri

Gweld Adroddiad

### Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Sir y Fflint

Dyddiad yr Adroddiad

09/08/2023

Pwnc

COD - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch

Canlyniad

COD

Rhif Cyfeirnod yr Achos

202201136

Math o Adroddiad

COD - Dim Angen Gweithredu
Corff Perthnasol

Cyngor Sir y Fflint
Gweld Adroddiad

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**
Naddo
**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor: Amherthnasol**
**Cydweithio: Amherthnasol**
**Cynnwys: Amherthnasol**
**Atal: Amherthnasol**
**Integreiddio: Amherthnasol**

**Argymhelliad:**
Nodi cynnwys yr adroddiad.

**Enw Cyswllt:** Lisa Evans

**Swydd:** Swyddog Craffu a Safonau

**Dyddiad yr Adroddiad:** 25/02/24

**Acronymau:**

Eitem Agenda 9

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**DYDDIAD:** **6 Mawrth 2024**

**LLEOLIAD:** **Hybrid**

**TEITL:** **Cynlluniau hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned**

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Er gwybodaeth**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 25ain Ionawr 2023 o ran cynlluniau hyfforddi'r Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i swyddogion goladu cynlluniau hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned y bu'n rhaid eu cynhyrchu a'u cyhoeddi erbyn 5/11/22 o dan Adran 67 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd y Swyddogion Safonau wedi ysgrifennu at y Cynghorau Tref a Chymuned yn gofyn am gopi o'u cynllun hyfforddi'r Cyngor erbyn 2il Ionawr 2023. Roedd 13 o Gynghorau Tref/Cymuned wedi rhannu eu cynlluniau hyfforddi erbyn y dyddiad cau.

Fe wnaeth y Swyddog Safonau atgoffa Cynghorau Tref a Chymuned bod yn rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi a gofynnodd i'r cynlluniau gael eu hanfon at Gyngor Sir Ceredigion erbyn 24ain Ionawr 2024. Hysbyswyd clercod bod cynnwys y cynllun hyfforddi i'r graddau y mae'n cyfeirio at y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor asesu anghenion hyfforddi Cynghorau Tref/Cymuned.

**Cynlluniau hyfforddi a gafwyd 2022/23:**

- Aber-porth
- Llandysul
- Llanrhystud
- Trefeurig
- Llanbadarn
- Llanfarian
- Aberteifi
- Ceulan-y-maes-mawr
- Genau'r-glyn
- Llannarth
- Llanddewi
- Llandysiliogogo
- Llanfihangel Ystrad
- Llangrannog
- Llangynfelyn
- Llanllwch
- Llanwenog
- Ceinewydd

- Llangwyryfon
- Ysgubor y Coed

**Cynlluniau hyfforddi a gafwyd 2024:**

- Aberystwyth
- Y Borth
- Y Ferwig
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn
- Llandysiliogogo
- Llanfihangel Ystrad
- Llangrannog
- Llangwyryfon
- Llanllwch
- Llanrhystud
- Penbryn
- Trefeurig

Mae 25 o Gynghorau Tref/Cymuned wedi ymateb i'r cais. Nid yw 26 o Gynghorau Tref/Cymuned wedi ymateb eto.

Mae nifer o'r cynlluniau yn rhestru'r canlynol ar gyfer pob Cynghorydd, gan ddilyn Templed Un Llais Cymru:

- Hyfforddiant wedi'i gyflawni 2021- 2022
- Hyfforddiant wedi'i gyflawni 2022- 2023
- Hyfforddiant wedi'i gyflawni 2023-24
- Hyfforddiant wedi'i gyflawni 2024-25

Mae rhai yn cyfeirio at fodiwl 9 ar y Cod Ymddygiad o Raglen Hyfforddi Genedlaethol Cyrsiau Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Disgrifir hwn fel ‘*Modwl rhyngweithiol ac addysgiadol iawn sy’n galluogi cyfranogwyr i ddeall egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan a datblygu gwybodaeth fanylach o’r Cod Ymddygiad a sut mae’n berthnasol i Gynghorwyr lleol*.
*Mae'r modiwl yn ymdrin yn benodol â'r canlynol:*

- *Egwyddorion Nolan*
- *Yr hyn y mae'n rhaid i Gynghorwyr ei wneud a'r hyn na ddylent ei wneud*
- *Buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu*
- *Rhagderfyniad a Rhagdueddiad*
- *Sut y caiff y Cod ei Blismona*

*Atgyfnerthir y dysgu drwy ymarferion ymarferol a DVD o'r Ombwdsmon yn egluro ei rôl.’*

Mae rhai yn rhestru’r cod ymddygiad fel ‘Hyfforddiant i’w drefnu yn 2024/25’

Mae un yn rhestru bod 'Pob Cynghorydd yn cael dogfen Cod Ymddygiad ac yn cael sesiwn hyfforddi fer yn dilyn eu hetholiad – bob 4 blynedd'.

Mae lefel y manylder a’r wybodaeth a roddir yn amrywio rhwng Cynghorau Tref/Cymuned.

Rhannwyd y wybodaeth hon gyda Chynghorwyr Sir i'w hysbysu os nad oedd Cyngor y Gymuned yn eu Ward wedi cyflwyno'r cynllun i'r Cyngor; ac i'w hysbysu bod angen i'r cynllun fod ar eu gwefan yn unol â deddfwriaeth.

**ARGYMHELLIAD:**

Nodi cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 14 Chwefror 2024 |
| **Acronymau:** | |

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R :** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Mawrth 2024** |
| **TEITL:** | **Recriwtio Cynghorwr Tref a Chymuned ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |

**CEFNDIR:**

Mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys:
5 aelod lleyg / annibynnol,
2 Aelod Etholedig: Cynghorwyr Sir a
2 Aelod Etholedig: Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Bydd angen penodi Cynghorydd Cyngor Tref a Chymuned newydd ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Jan Culley yn ddiweddar.
Cydnabyddir bod angen proses agored a theg i sicrhau y gall yr holl Gynghorwyr Tref a Chymuned o fewn ardal Ceredigion sy'n mynegi diddordeb gael eu hystyried fel aelodau o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

<u>Y Cynnig</u>
Byddwn yn cysylltu â chlerc pob Cyngor Tref a Chymuned i ofyn am enwau Cynghorwyr ar eu Cynghorau Tref a Chymuned sydd â diddordeb i gael eu hystyried ar gyfer rôl:
Aelod Etholedig Cynghorydd Tref a Chymuned ar Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor.

Bydd y Cynghorau Tref a Chymuned yn derbyn:
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Moeseg a Safonau
- Gweledigaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau
- Manyleb y person / disgrifiad o'r rôl gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Manyleb y person / disgrifiad o'r rôl gan Gyngor Sir Ceredigion
- Manylion am Lwfansau

Byddwn yn gofyn i Gynghorwyr â diddordeb gyflwyno eu CV i'r Cyngor erbyn 30 Ebrill 2024. Dylai'r CV gynnwys:
- Profiad perthnasol
- Sut maent yn gweddu â disgrifiad y rôl
- Sut maent yn gweddu â manyleb y person
- Sut a pham eu bod yn addas ar gyfer y rôl
- Pam fod ganddynt ddiddordeb yn y rôl
- Beth y gallant gyfrannu at y rôl

Mewn achos pan fydd mwy nag un enw wedi’u cyflwyno, bydd proses dethol briodol yn cael ei dilyn.

Byddwn yn gofyn i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned rannu’r wybodaeth berthnasol gyda’u Haelodau drwy roi’r mater ar yr agenda ar gyfer eu cyfarfod nesaf. **Yn y cyfamser, mae dal gan y Pwyllgor gworwm.**

**ARGYMHELLIAD:** Dylid nodi’r sefyllfa.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Lisa Evans** |
| **Swydd:** | **Swyddog Craffu a Safonau** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **26 Chwefror 2024** |
| **Acronymau’** | |

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **6 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2023/24** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |

**Beth mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei wneud?**
Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:-

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr
- cynorthwyo'r Cynghorwyr i gadw at y Cod Ymddygiad
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad
- monitro gweithredu'r Cod Ymddygiad, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd roi gollyngiadau, sy'n caniatáu i Gynghorwyr sydd â buddiant mewn eitem benodol o fusnes y Cyngor barhau i gymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Efallai y caiff adroddiadau ymchwilio y mae'r Ombwdsmon neu Swyddog Monitro'r Cyngor wedi'u paratoi ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri eu cyfeirio at y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y gellir penderfynu yn eu cylch.

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd y cyfrifoldebau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion yn ei wneud yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu deunydd hyfforddi ar y Cod, gan gynnwys siart llif sy'n rhoi crynodeb o'r prif ddarpariaethau
- mynd i'r sesiynau hyfforddi ynghylch y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar y trafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol
- rhoi cyngor i Gynghorwyr ynglŷn â cheisiadau am ollyngiad

**Y Flaenraglen Waith**
Bydd Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu a diweddaru rhaglen waith y Pwyllgor.

Mae Blaenraglen Waith ddrafft ynghlwm i'w hystyried (Atodiad 1)

**Argymhellion:**

1) ystyried, adolygu a diweddaru'r Flaenraglen Waith ddrafft gyfredol. **(Atodiad 1)**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 26/2/24 |
| **Acronymau:** | |

Rhaglen Waith Pwyllgor Moeseg a Safonau 2023/24

| Dyddiad | Eitem |
|---|---|
| 15 Tachwedd 2023 | Log Gweithredu<br><br>Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br>Cynghorydd Keith Evans x6<br>Treth y Cyngor- Ail Gartrefi/Tai gwag tymor hir:-<br>Y Cynghorydd Gareth Davies<br>Cynghorydd Catrin MS Davies<br><br>Diwygio canllawiau statudol ac anstatudol cyfunol ar gyfer prif gynghorau<br><br>Y newyddion diweddaraf am faterion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Llythyr Blynyddol PSOW<br><br>Cynlluniau Hyfforddiant<br><br>Diweddariad y Swyddog Monitro ynghylch y Cod Ymddygiad<br><br>Templed dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol<br><br>Cysoni trothwyon rhoddion/lletygarwch ar draws holl Awdurdodau Cymru<br><br>Diweddariad Cyd-bwyllgorau Corfforaethol<br><br>Cofnodion y Fforwm Safonau Cenedlaethol |
| 10 Ionawr 2024 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br><br>Y newyddion diweddaraf am faterion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Diweddariad y Swyddog Monitro ynghylch y Cod Ymddygiad<br><br>Log Gweithredu |

| | |
|---|---|
| | Dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol – adrodd yn ôl o weithdy a gynhelir gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol |
| 6 Mawrth 2024 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br><br>Y newyddion diweddaraf am faterion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Log Gweithredu<br><br>Arweinwyr grwpiau gwleidyddol<br><br>Cynlluniau hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned |

2024/25

| | |
|---|---|
| 5 Mehefin 2024 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br><br>Y newyddion diweddaraf am faterion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Log Gweithredu<br><br>Arweinwyr grwpiau gwleidyddol – gwahoddiad i gyfarfod cyntaf y flwyddyn ddinesig<br><br>Gwrandawiad Cychwynnol – Cynghorydd o Gyngor Cymuned Llanstantffraid<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau: |

| | |
|---|---|
| | Trosglwyddo: Gwrandawiad cychwynnol - Cynghorydd o Gyngor Sir Powys<br>Trosglwyddo: Gwrandawiad cychwynnol - Cynghorydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| 4 Medi 2024 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br><br>Y newyddion diweddaraf am faterion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Log Gweithredu |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol